estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Darpariaeth ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed uwchradd

Ebrill 2019



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© **Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Cymorth ar gyfer pontio** | **9** |
| **Hyrwyddo diwylliant cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy'r cwricwlwm** | **11** |
| **Lles** | **12** |
| **Presenoldeb** | **14** |
| **Cyflawniad** | **17** |
| **Gwasanaethau targedig ysgolion ac awdurdodau lleol** | **20** |
| **Cyllid, monitro a gwerthuso** | **22** |
| **Atodiad 1: Cynnydd yn unol ag argymhellion o adroddiadau blaenorol Estyn** | **23** |
| **Atodiad 2: Sail y dystiolaeth** | **25** |
| **Geirfa** | **27** |
| **Cyfeiriadau** | **28** |

# Cyflwyniad

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg eu hadroddiad ymchwil i'r Grant Gwella Addysg yn canolbwyntio ar blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o Leiafrifoedd Ethnig (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017). Roedd Argymhelliad 7 yn ymwneud ag Estyn:

> 'Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, gan roi'r diweddaraf ar y sefyllfa ers ei adroddiad thematig diwethaf yn 2011. Dylai adolygiad Estyn ystyried effaith y trefniadau ariannu newydd ers 2015-16 a dylai hefyd ystyried y mater ehangach o ba mor dda y mae 'haen ganol' addysg (y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol) yn monitro ac yn gwerthuso'r deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Dylai Estyn gynnal yr adolygiad hwn fel rhan o'i gylch gwaith yn 2017-18 neu cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol' (tud.8).

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet at Estyn ar gyfer 2018-2019:

> 'Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gynnydd o ran darpariaeth ar gyfer dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig ers adroddiad Estyn yn 2011. Bydd yn ystyried effaith y trefniadau ariannu newydd ar wasanaethau addysgol presennol, a chymorth ar gyfer deilliannau addysgol y dysgwyr hyn. I baratoi ar gyfer y gwaith hwn, bydd Estyn yn casglu tystiolaeth yn ystod ymweliadau arolygwyr cyswllt ag awdurdodau lleol.'

Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethol mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r adroddiad yn gwerthuso'r ansawdd a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion oedran uwchradd o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r modd y mae hyn wedi datblygu ers adroddiadau blaenorol Estyn, yn enwedig adroddiad Estyn yn 2011 (Estyn, 2011), yn unol â'r crynodeb yn Atodiad 1.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o arolygiadau a holiaduron ar-lein, wedi eu llenwi gan gynrychiolwyr o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Ymwelodd arolygwyr ag ysgolion a buont yn cyfweld â phenaethiaid, cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a disgyblion a rhieni o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

## Cefndir

Cydnabuwyd ers tro fod plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymhlith rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Maent yn wynebu heriau penodol o ran elwa ar addysg sy'n gwneud y mwyaf o'u doniau, eu diddordebau a'u galluoedd unigol. Er bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi ymrwymo i ysgogi gwelliannau, mae cyfraddau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn parhau i fod yn isel yn barhaus.

Ym mis Chwefror 2007, sefydlodd Llywodraeth Cymru Fforwm Cymru Gyfan o Gydgysylltwyr Addysg Sipsiwn-Teithwyr. Mae'r fforwm hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol yn bennaf. Prif ffocws y fforwm yw cyflawniad addysgol plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn lleoliadau addysgol. Mae'r fforwm yn gweithredu o dan is-grŵp Cynhwysiant Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC).

Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau arfer orau, sef 'Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio i ddiweddaru'r canllawiau hyn ar hyn o bryd.

Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd Estyn 'Addysg disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr: Diweddariad ar y ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd' (Estyn, 2011). Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn adroddiad Estyn yn 2005 ar 'Addysg Dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr' (Estyn, 2005). Mae'r prif ganfyddiadau o adroddiad Estyn yn 2011 yn cynnwys y canlynol:

> 'Er gwaethaf ymdrechion gorau rhai awdurdodau lleol ac ysgolion uwchradd, mae angen gwneud llawer o waith o hyd i sicrhau deilliannau gwell ar gyfer disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr. Aethpwyd i'r afael ag un yn unig o'r pum argymhelliad yn adroddiad Estyn 2005 ar 'Addysg Dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr'.
>
> 'Y ffactorau pwysicaf o ran gwella deilliannau disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr yw gwella presenoldeb disgyblion a'u hagweddau tuag at yr ysgol. Mae gwella cyfraddau presenoldeb isel a chyflawniad isel dilynol disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr yn her i staff addysg i deithwyr gan ei fod yn cynnwys newid agweddau sefydledig yng nghymuned y Sipsi Deithwyr ac mewn ysgolion uwchradd.
>
> 'Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr yn amrywio ar draws awdurdodau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu lleoliadau addysg uwchradd prif ffrwd yn unig, ond mewn rhai awdurdodau, caiff disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr eu haddysgu'n amhriodol mewn unedau annibynnol ar wahân ar gyfer eu haddysg uwchradd gyfan.
>
> 'Mae'r rhan fwyaf o staff addysg i deithwyr yn darparu cymorth o ansawdd uchel ar gyfer ysgolion. Maent hefyd yn rhoi cymorth pwysig i rieni disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr a chymuned ehangach y Sipsi Deithwyr yn aml. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae staff addysg i deithwyr yn gweithio'n agos gyda swyddogion lles

addysg i wella presenoldeb disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr. Maent yn ymweld â safleoedd Sipsi Deithwyr ar y cyd i gael gwybod lle mae'r disgyblion. Mewn rhai achosion, mae'r camau hyn yn dechrau gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr.'

Yn 2016, cyhoeddodd prosiect Teithio Ymlaen adroddiad 'Arfer Da mewn Addysg: Prosiect Ymchwil Cymheiriaid' (Achub y Plant, 2016). Cynhaliwyd y prosiect ymchwil hwn rhwng 2014 a 2015 a gwnaeth argymhellion ar sut i wella profiad disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o addysg. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys gwneud ysgolion yn ymwybodol o ddiwylliant disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'u gwahaniaethau, o gymharu â'r gymuned sefydledig, a sicrhau bod opsiynau addysg a phresenoldeb rhan-amser hyblyg ar gyfer pob disgybl ledled Cymru.

Mynegwyd pryderon gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2016a) a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu Hiliol (2016b) am gyflwr addysg ar gyfer plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yr hyn sy'n destun pryder penodol yw'r bwlio, y gwahaniaethu, y gwaharddiadau a'r cyfraddau cyrhaeddiad anghymesur a brofir gan blant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er bod yr adroddiadau hyn yn berthnasol i'r DU gyfan, maent hefyd yn berthnasol i'r gweinyddiaethau datganoledig, gan gyhoeddi argymhellion yn galw am:

- strategaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo cynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- cyfle gwell i elwa ar wasanaethau, gan gynnwys addysg
- rhoi diwedd ar warthnodi a wynebir gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth newydd, sef 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' (Llywodraeth Cymru, 2018a) fel rhan o'u hymrwymiadau cenedlaethol a nodir yn 'Ffyniant i Bawb' (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad o'r newydd i'r canlynol:

- parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod safleoedd preswyl a thramwy sy'n ddigon priodol i ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu creu yng Nghymru
- herio deilliannau iechyd ac addysg sefydledig sy'n atal y cymunedau hyn rhag cyflawni eu potensial
- cynorthwyo Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gael mynediad at y farchnad lafur
- darparu cyngor ac eiriolaeth i Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n wynebu gwahaniaethu neu drosedd casineb
- gwella rhannu gwybodaeth, gan gynnwys mewn perthynas â hawliau
- meithrin cysylltiadau da rhwng cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymdeithas ehangach

Fel rhan o'r broses pennu cyllideb ar gyfer 2015-2016, unodd Llywodraeth Cymru 11 o grantiau a glustnodwyd yn flaenorol, gan gynnwys y grant Sipsiwn a Theithwyr, yn un grant o'r enw'r 'Grant Gwella Addysg' (GGA). Gweinyddir y GGA gan y pedwar consortiwm rhanbarthol, a thrwy hyn, mae awdurdodau lleol yn rhannu eu gwasanaethau gwella ysgolion. Mae rhagor o newid strwythurol i drefniadau ariannu yn golygu y bydd cyllid i gynorthwyo disgyblion o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn

cael ei ddarparu trwy Grant Cymorth Refeniw awdurdod lleol, o 2018-2019. Mae hyn yn golygu nad yw cyllid i gynorthwyo disgyblion o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei glustnodi mwyach.

Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol sydd â'r prif gyfrifoldeb am addysg disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nid yw trefniadau consortia rhanbarthol yn cynnwys cyfrifoldebau penodol ar gyfer addysg Sipsiwn, Roma a Theithwyr, heblaw fel rhan o'u gwaith i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n dda mewn ysgolion. Yn 2018-2019, cytunodd y Gweinidog Addysg i roi £8.7 miliwn ledled Cymru i gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu cymorth addysgol ar gyfer dysgwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ar sail y ddealltwriaeth y dylai'r cymorth hwn fod yn rhan o wasanaethau addysg lleol craidd. Mae'r cyllid ychwanegol yn cydnabod ei bod yn cymryd amser i drawsnewid y gwasanaeth i fod yn un sy'n fwy cynaliadwy am y tymor hir. Mae £8.7 miliwn arall ar draws awdurdodau lleol yn 2019-2020 wedi cael ei glustnodi i gefnogi datblygiad parhaus model cyflwyno newydd, y disgwylir iddo ddod o rym o fis Ebrill 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried modelau ariannu posibl yn y dyfodol.

## Prif ganfyddiadau

1 Ledled Cymru, tua hanner yn unig o ddisgyblion Blwyddyn 6 o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n symud ymlaen i addysg uwchradd ym Mlwyddyn 7. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys pryderon gan rieni:

- y bydd eu plant yn cael eu bwlio yn yr ysgol uwchradd
- y bydd eu diwylliant yn cael ei wanhau yn sgil cyswllt â'r gymuned sefydlog
- mai ychydig iawn sydd yng nghwricwlwm yr ysgol i baratoi eu plant ar gyfer gwaith neu ar gyfer cadw cartref

2 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i wella cyfraddau pontio ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft trwy drefnu ymweliadau pontio ychwanegol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'u rhieni. At ei gilydd, ychydig iawn o effaith y mae'r trefniadau hyn wedi'i chael ar wella cyfraddau pontio ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

3 Er 2011, mae niferoedd y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu bron 35%. Fodd bynnag, efallai nad yw'r data yn rhoi darlun cywir, gan fod lleiafrif o rieni a disgyblion yn dweud nad ydynt yn ymgysylltu â'r cymunedau hyn gan eu bod yn ofni cael eu herlid neu'u bwlio.

4 Polisïau gwrthfwlio a chydraddoldeb tua hanner yr ysgolion yn unig sy'n ystyried anghenion penodol disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft o ran cydnabod sut gallai eu diwylliant a'u traddodiadau effeithio ar eu presenoldeb.

5 Mae llawer o ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am ddiwylliant a ffordd o fyw Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy wasanaethau, trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), a thrwy ddathlu digwyddiadau penodol fel mis hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw ysgolion yn hyrwyddo diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ddigon da ar draws rhan ffurfiol y cwricwlwm ysgol sy'n seiliedig ar bynciau.

6 Mae presenoldeb disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion uwchradd wedi gwella dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, er bod eu presenoldeb yn rhy isel, ac ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd yng Nghymru ar y cyfan.

7 Mae tua hanner yr ysgolion a'r awdurdodau lleol yn credu bod anawsterau cludiant yn effeithio ar bresenoldeb disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae ychydig o safleoedd ymhell oddi wrth lwybrau cludiant arferol ac yn agos at briffyrdd neu ardaloedd diwydiannol, sy'n golygu bod cerdded i'r ysgol yn beryglus, gan nad oes llwybrau troed yn aml. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn darparu cludiant i ddisgyblion i helpu â phresenoldeb. Pan fo'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn cynnig cludiant, mae cyfraddau presenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion yn llawer uwch.

8 Mae gan fwyafrif o awdurdodau lleol ac ysgolion gynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau) ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio CCBau yn briodol i gefnogi presenoldeb, gan gynnwys gosod targedau realistig. Mae disgyblion, rhieni, ysgolion ac asiantaethau allanol yn cytuno ar y strategaethau ar gyfer gwella. Mae awdurdodau lleol yn monitro'r strategaethau hyn yn briodol.

9 Bu gwelliannau sylweddol ym mherfformiad disgyblion o gymunedau Sipsiwn a Sipsiwn Roma yng nghyfnod allweddol 4 dros y blynyddoedd diwethaf, er mai hwn, ar y cyfan, yw'r isaf o hyd o'r holl grwpiau ethnig yng Nghymru, ac mae islaw cyfartaledd Cymru. Mae nifer fach y disgyblion o gymunedau Teithwyr yn golygu na ellir gwneud cymariaethau tebyg.

10 Er bod y rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol yn casglu a dadansoddi data ar bresenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, nid ydynt yn defnyddio'r data hwn i werthuso effeithiolrwydd eu strategaethau gwella yn dda. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn parhau â'r un mathau o gymorth heb werthuso pa rai yw'r rhai mwyaf effeithiol. Mae ychydig o ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r data hwn yn dda i bennu effeithiolrwydd eu strategaethau, a gwneud diwygiadau.

11 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu cymorth defnyddiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy wasanaeth addysg i deithwyr. Mae staff o'r gwasanaethau hyn yn cysylltu'n dda â theuluoedd disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn helpu disgyblion i wella eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio eu staff arbenigol mewn ysgolion, ar sail nifer y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n mynychu. Ceir diffyg eglurder mewn ychydig o awdurdodau lleol ynglŷn â sut maent yn neilltuo'r staff hyn i ysgolion.

12 Ychydig iawn o awdurdodau lleol yn unig sy'n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill i gyflwyno gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae dau awdurdod lleol yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth am deuluoedd sy'n teithio rhwng y ddau awdurdod, er enghraifft. Mae hyn yn helpu sicrhau parhad mewn addysg i'r disgyblion hyn.

13 Mae llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi gwneud defnydd da o ganllawiau Llywodraeth Cymru 'Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr' i gefnogi addysg disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae wedi helpu ennyn dealltwriaeth ymhlith darllenwyr o'r diwylliant Sipsi Deithwyr ac o faterion sy'n ymwneud yn benodol â disgyblion o gymunedau Sipsi Deithwyr a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hon dros 10 oed, ac mae llawer o'r wybodaeth ynddi wedi dyddio.

14 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol a'r ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â choleg neu ddarparwr lleol dysgu yn y gwaith i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng nghyfnod allweddol 4. Mae ychydig o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol mewn adeiladu neu mewn gwallt a harddwch. Yn ogystal, ychydig iawn o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n dilyn cyrsiau Safon

Uwch yn y chweched dosbarth, ac mae ychydig iawn ohonynt wedi dilyn cyrsiau gradd mewn prifysgol. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn mynd ymlaen i astudio cyrsiau sy'n eu paratoi ar gyfer cymwysterau ffurfiol ar lefel ôl-16.

15 Pan mae angen cryfhau medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cymorth trwy eu hymyriadau safonol fel rhaglenni dal i fyny. Pan nodir bod gan ddisgybl o gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr angen dysgu ychwanegol o bosibl, mae cyswllt rhwng staff yr awdurdod lleol a chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol a'r gwasanaeth addysg i deithwyr yn sicrhau yn gyffredinol fod y disgybl yn ymgymryd ag asesiadau perthnasol sy'n arwain at ddarparu cymorth addas.

16 Nid yw mwyafrif o awdurdodau lleol yn credu y bu cyfuno'r Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr yn y GGA yn 2014 yn effeithiol. Mae hyn oherwydd eu bod yn credu y bu gostyngiad cyffredinol yn y cyllid, a bod hynny wedi cael effaith negyddol ar y gwasanaethau yr oeddent yn gallu eu darparu. Er bod lefel gyffredinol y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru trwy'r GGA wedi cael ei chynnal, o fewn y GGA, roedd disgresiwn i awdurdodau lleol ddyrannu cyllid ar lefel yr oeddent yn ei hystyried yn briodol ar sail angen lleol. Mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol yn dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion trwy eu cyllidebau craidd.

## Argymhellion

**Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion:**

A1 Sicrhau eu bod yn gwerthuso effeithiolrwydd eu strategaethau i wella cyflawniad, cyfnod pontio a phresenoldeb* disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn gwneud gwelliannau pan na fydd strategaethau yn ysgogi'r deilliannau dymunol

A2 Sicrhau bod polisïau gwrthfwlio a chydraddoldeb yn ystyried anghenion penodol disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr*

A3 Sicrhau bod ysgolion yn hyrwyddo diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws cwricwlwm yr ysgol*

A4 Sicrhau bod disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn am eu profiadau dysgu

A5 Cydweithio i gyflwyno a gwella gwasanaethau ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

A6 Archwilio ffyrdd o fagu hyder disgyblion a rhieni o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i hunanbennu eu hunaniaeth ethnig yn gywir

**Dylai Llywodraeth Cymru:**


A7 Ddiweddaru canllawiau 2008 'Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr'

* Argymhelliad yn adroddiadau Estyn yn 2005 a 2011

## Cymorth ar gyfer pontio

17 Rhwng 2011 a 2018, cynyddodd nifer y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o oedran ysgol statudol mewn ysgolion uwchradd o 225 i 303, sef cynnydd o 35%. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o oedran ysgol statudol mewn ysgolion cynradd o 497 i 699, sef cynnydd o 41%. Mae disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cynrychioli 0.2% o'r boblogaeth oedran ysgol statudol mewn ysgolion uwchradd, a 0.3% mewn ysgolion cynradd. Er gwaethaf y cynnydd yn niferoedd y disgyblion, dywed lleiafrif o rieni a disgyblion nad ydynt yn ymgysylltu â'r cymunedau hyn gan eu bod yn ofni cael eu herlid neu'u bwlio gan y gymuned sefydlog. Mae hyn yn golygu nad yw'r data a gasglwyd efallai'n adlewyrchu'n gywir nifer y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n mynychu'r ysgol.

**Ffigur 1: Niferoedd y disgyblion o oedran ysgol statudol mewn ysgolion uwchradd o gefndiroedd Sipsiwn / Sipsiwn Roma a Theithwyr, 2011-2018**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), 2018[1]

18 Mae gan ryw hanner yr awdurdodau lleol drefniadau pontio penodol i gynorthwyo disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys cyswllt agos â rhieni, a threfnu ymweliadau ag ysgolion uwchradd ar gyfer disgyblion a rhieni fel ei gilydd. Yn yr achosion hyn, mae'r trefniadau yn effeithiol o ran gwella niferoedd y disgyblion sy'n symud o'r sector cynradd i'r sector uwchradd. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw trefniadau pontio wedi gwella'n ddigon da ledled Cymru ers adroddiad blaenorol Estyn (Estyn, 2011).

[1] Casglwyd y data heb ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, a chwblhawyd y cyfrifiadau gan Estyn

19 Dros y pum mlynedd ddiwethaf, tua hanner yn unig o’r disgyblion Blwyddyn 6 o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a symudodd i addysg uwchradd ym Mlwyddyn 7[2]. Mae nifer o resymau am hyn, ac maent yn cynnwys:

- pryderon y byddant yn cael eu bwlio mewn ysgol uwchradd oherwydd eu hethnigrwydd
- ofn y bydd eu diwylliant yn cael ei wanhau trwy gymysgu â’r gymuned sefydlog
- canfyddiad gan rieni mai ychydig iawn yn y cwricwlwm sy’n berthnasol a fydd yn paratoi eu plant ar gyfer gwaith a chadw cartref

**Arfer dda mewn trefniadau pontio yng Nghyngor Caerdydd**

Mae gwasanaeth addysg i deithwyr Caerdydd yn ymgymryd â gwaith pontio fel proses barhaus trwy gydol y flwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd. Maent yn sicrhau cyswllt agos â rhieni ac yn cynorthwyo rhieni trwy gydol y broses bontio. Maent yn trefnu ymweliadau ar gyfer disgyblion a rhieni â’r ysgol uwchradd, yn llenwi ffurflenni derbyn gyda rhieni, ac yn helpu lleddfu unrhyw gamsyniadau ac ofnau a allai fod gan rieni am addysg ysgol uwchradd. Mae hyn wedi arwain at 38 pwynt canran o gynnydd yn nifer y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy’n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Caerdydd dros y tair blynedd ddiwethaf, o 50% yn 2014 i 88% yn 2017.

20 Mae un awdurdod lleol yn trefnu darpariaeth ar wahân ar gyfer disgyblion oedran uwchradd o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr y tu allan i ysgol uwchradd. Mae hyn oherwydd bod rhieni’n amharod i ganiatáu i’w plant drosglwyddo o’r ysgol gynradd ar ddiwedd Blwyddyn 6 i fynychu ysgol uwchradd brif ffrwd. Trefnir y ddarpariaeth hon er mwyn i ddisgyblion oedran uwchradd o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr allu cael profiad o addysgu ysgol uwchradd cyn trosglwyddo i’r ysgol uwchradd leol. Fodd bynnag, yn unol â’r cyfartaledd cenedlaethol, tua hanner yn unig o’r disgyblion hyn sy’n trosglwyddo i ysgol uwchradd brif ffrwd yn ddiweddarach.

[2] Casglwyd y data heb ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, a chwblhawyd y cyfrifiadau gan Estyn

## Hyrwyddo diwylliant cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy'r cwricwlwm

21 Mae llawer o ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am ddiwylliant a ffordd o fyw cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy wasanaethau, trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), a thrwy ddathlu digwyddiadau penodol fel mis hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon yn gwneud hyn trwy'r cwricwlwm hanes, er enghraifft wrth ystyried erlid Sipsiwn yn ystod yr holocost. Nid yw llawer o ysgolion yn hyrwyddo diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ddigon da ar draws rhan ffurfiol y cwricwlwm ysgol sy'n seiliedig ar bynciau.

**Addasu gwersi addysg grefyddol i gynnwys diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Mewn un ysgol, roedd sylwadau amhriodol wedi cael eu gwneud tuag at ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cynhaliodd yr ysgol wasanaeth yn amlygu gwahaniaeth a goddefgarwch. Addasodd wersi addysg grefyddol i gynnwys trafodaethau am y diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rhoddwyd cyfleoedd i ddisgyblion ymchwilio i'r diwylliant a chreu llyfrynnau gwybodaeth. Yn ogystal, daeth siaradwyr gwadd i'r ysgol a chymryd rhan mewn sesiynau holi ac ateb grŵp. Fe wnaeth hyn helpu codi ymwybyddiaeth disgyblion am ddiwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

22 Dywed bron pob un o'r disgyblion a'r rhieni o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr y byddent yn gwerthfawrogi pe bai eu diwylliant yn cael ei adlewyrchu'n fwy mewn ysgolion. Credant y gallai hyn helpu rhoi dealltwriaeth well i ddisgyblion o'r gymuned sefydlog o gefndir a ffordd o fyw Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn ychwanegol, credant y gallai hyn helpu lleihau bwlio, a chynorthwyo'r holl ddisgyblion i fod yn ddinasyddion mwy moesegol a gwybodus.

23 Dywed llawer o ddisgyblion fod achosion o fwlio'n seiliedig ar hunaniaeth yn erbyn disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gyffredin. Yn yr achosion yr adroddwyd amdanynt fel rhan o'r arolwg, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r farn fod yr ysgol yn delio â'r achosion yn sensitif ac yn datrys materion yn briodol. Mae gan bron bob ysgol bolisïau gwrthfwlio a chydraddoldeb sydd wedi'u cynllunio i gynorthwyo disgyblion y mae'n ofynnol iddynt eu derbyn. Tua hanner o'r polisïau hyn yn unig sy'n ystyried anghenion penodol disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft trwy sicrhau bod polisïau i fynd i'r afael â bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

## Lles

24 Mae disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar gynghorau ysgol mewn lleiafrif o ysgolion. Mae hyn wedi golygu eu bod yn cael eu cynnwys ac yn ymgysylltu'n fwy yng nghymuned eu hysgol a'u bod yn gallu codi materion sy'n effeithio arnyn nhw. Dywed ychydig iawn o ysgolion fod disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi cael eu gwahodd i fod ar y cyngor ysgol, ond eu bod wedi gwrthod o ganlyniad i ddiffyg hyder. At ei gilydd, nid yw ysgolion yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn gwrando ar farn disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Sefydlodd un awdurdod lleol 'Gyngor Pobl Ifanc', sy'n cynnwys disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i weithredu ochr yn ochr â chynghorwyr lleol i sicrhau bod gan bobl ifanc lais o fewn y prosesau gwneud penderfyniadau. Mae un o'r disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi dod yn Llysgennad Cymunedol hefyd o ganlyniad i waith ychwanegol gyda'r Comisiynydd Plant. Mae hyn wedi helpu sicrhau bod disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu barn yn cael ei hystyried.


25 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn sensitif ynglŷn â'r materion sy'n gysylltiedig â gwaith cartref ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac yn darparu cymorth buddiol a hyblyg. Mae llawer ohonynt yn cynnig clybiau amser cinio ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i'w galluogi i gwblhau gwaith ysgol a gwaith cartref cyn dychwelyd adref. Mae hyn yn rhoi man tawel i ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr gwblhau eu gwaith, ac mae hefyd yn darparu cymorth ychwanegol gan oedolyn ar eu cyfer, pe bai ei angen arnynt. Mewn llawer o achosion, mae nifer dda o ddisgyblion yn mynychu'r clybiau ac maent yn helpu disgyblion i sicrhau eu bod yn gallu cwblhau gwaith a osodwyd yn y dosbarth. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cyfleusterau TGCh am nad oes gan lawer o'r disgyblion hyn ryngrwyd gartref. Mae hyn wedi helpu gwella hyder disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o ran defnyddio caledwedd a meddalwedd gyfrifiadurol. Mae'r rhan fwyaf o staff cymorth awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r clybiau hyn yn dda trwy eu cyswllt â rhieni.

25 Mae gan fwyafrif o ysgolion drefniadau priodol ar waith i geisio sicrhau parhad mewn dysgu ar gyfer disgyblion sy'n teithio'n aml. Yn yr achosion gorau, mae staff addysg i deithwyr yn cynorthwyo'r teulu i chwilio am ysgol briodol yn agos at ble maent yn disgwyl symud. Mae staff gwasanaeth yn cysylltu â'r ysgol newydd i wirio addasrwydd yr ysgol, a throsglwyddo unrhyw wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, ni chaiff hen ysgol y disgyblion ei hysbysu am y symud, ac felly ni all drosglwyddo gwybodaeth mewn modd amserol.

26 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae ychydig o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ymgymryd yn addas â llwybrau dysgu unigol. Er enghraifft, yn ystod 2017-2018, mewn un awdurdod lleol, mynychodd wyth plentyn Sipsiwn a Theithwyr goleg neu ddarpariaeth arall, ac roedd chwech o'r rhain trwy'r llwybr 14-19. Yn 2018-2019, mae 11 disgybl yn dilyn y llwybr 14-19.

## Presenoldeb

**Ffigur 2: Cyfraddau presenoldeb ysgol uwchradd yn ôl cefndir ethnig, 2011-2012 i 2016-2017**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2017 a Chronfa Ddata Presenoldeb 2017[3]

27 Er 2012, mae presenoldeb disgyblion sy'n Sipswn / Sipswn Roma wedi cynyddu o 82.6% i 85.5%. Yn ystod yr un cyfnod, mae presenoldeb disgyblion sy'n Deithwyr wedi cynyddu o 70.1% i 85.3%. Fodd bynnag, mae presenoldeb ar gyfer y grwpiau hyn yn parhau i fod ymhell islaw'r cyfartaledd, sef 94% ar gyfer disgyblion oedran uwchradd yng Nghymru yn 2017.

28 Mae bron pob awdurdod lleol ac ysgol yn monitro data presenoldeb yn briodol ac yn ei gymharu â ffigurau cenedlaethol. Pan fo presenoldeb yn disgyn islaw cyfartaleddau cenedlaethol neu'n destun pryder, defnyddir dull amlasiantaethol i gefnogi gwelliant. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r gwasanaeth addysg i deithwyr yn gweithio gyda swyddogion lles addysg.

29 Mewn llawer o awdurdodau, mae'r gwasanaeth addysg i deithwyr yn gweithio gydag ysgolion a'r gwasanaeth lles addysg i fonitro presenoldeb disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Pan fo'r ysgol yn codi pryderon neu nid yw presenoldeb yn cyrraedd targed y disgybl unigol, bydd y gwasanaeth addysg i deithwyr yn ffonio'r teulu neu'n ymweld â'r cartref. Wedyn, mae'r asiantaethau yn monitro presenoldeb y disgybl yn agos. Pan fo presenoldeb yn dda, mae ysgolion yn canmol teuluoedd ac yn eu hannog i barhau i gefnogi presenoldeb eu plant.

[3] Casglwyd y data heb ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, a chwblhawyd y cyfrifiadau gan Estyn

30 Mae ychydig o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi erlyn rhieni disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr am bresenoldeb gwael. Mae'r strategaeth hon wedi arwain at welliant cyfyngedig mewn presenoldeb ar gyfer y disgyblion hynny. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol yn amharod i erlyn, gan ofni y gallai gael effaith anffafriol trwy achosi i rieni benderfynu peidio ag anfon eu plant i'r ysgol o gwbl.

31 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu arweiniad defnyddiol i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â phresenoldeb ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r dogfennau arweiniad wedi helpu ysgolion i ddeall yn well y rhesymau y tu ôl i bresenoldeb gwael disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac yn awgrymu strategaethau defnyddiol ar sut i wella eu presenoldeb hefyd.

32 Mae bron pob ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt strategaethau priodol ar waith i annog presenoldeb da, er enghraifft trwy gynnig gwobrau a chysylltu â rhieni i feithrin perthnasoedd. Fodd bynnag, nid yw tua hanner rhieni disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr eisiau i'w plentyn fynychu ysgol uwchradd, gan deimlo ei bod yn amherthnasol i'w ffordd o fyw, a byddai'n well ganddynt pe bai eu plant sydd yn eu harddegau yn gweithio gydag aelodau hŷn y teulu i ddysgu crefft, neu'n aros gartref.

33 Mae tua hanner yr ysgolion a'r awdurdodau lleol yn credu bod anawsterau cludiant yn effeithio ar bresenoldeb disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae ychydig o safleoedd ymhell oddi wrth lwybrau cludiant cyhoeddus, ac yn agos at briffyrdd neu ardaloedd diwydiannol, sy'n golygu bod cerdded i'r ysgol yn gallu bod yn beryglus gan nad oes llwybrau troed yn aml. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn darparu cludiant ar gyfer disgyblion i helpu â phresenoldeb. Pan fo'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn cynnig cludiant, mae cyfraddau presenoldeb ac ymgysylltu disgyblion yn llawer uwch.

34 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae staff addysg i deithwyr yn cyfarfod yn rheolaidd â rhieni a disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i drafod unrhyw rwystrau o ran presenoldeb, a cheisio dod o hyd i atebion i oresgyn y rhwystrau hyn. Yn y mwyafrif o'r awdurdodau hyn, mae staff wedi meithrin perthynas dda â'r rhieni ac wedi ennyn eu hymddiriedaeth. Wedyn, gall yr aelodau staff hyn gynorthwyo'r teuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â phresenoldeb gwael.

35 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol a'r ysgolion yn defnyddio cofrestriad deuol[4] ar gyfer disgyblion ac yn dweud bod y system yn gweithio'n dda i sicrhau bod cofnodion addas ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr pan fyddant yn teithio. Mae hyn yn galluogi ysgolion i rannu gwybodaeth berthnasol ac yn sicrhau eu bod yn monitro disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn fwy effeithiol.


36 Mae gan fwyafrif o awdurdodau lleol ac ysgolion gynlluniau cymorth bugeiliol (CCB) ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio CCBau yn briodol i gefnogi presenoldeb, gan gynnwys gosod

[4] Gweler yr eirfa am esboniad o gofrestriad deuol


targedau realistig. Mae disgyblion, rhieni, ysgolion ac asiantaethau allanol yn cytuno ar y strategaethau ar gyfer gwella. Mae awdurdodau lleol yn monitro'r strategaethau hyn yn briodol. Mae defnyddio CCBau yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion a'u rhieni drafod materion perthnasol, manteisio ar fecanweithiau cymorth â phresenoldeb a gwneud penderfyniadau gwybodus ac ar y cyd am sut i wella presenoldeb ymhellach. Er enghraifft, defnyddiodd un awdurdod lleol CCBau i helpu gwella presenoldeb disgyblion o ddau deulu o Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Trwy'r CCB, cafodd y teuluoedd y cymorth oedd ei angen arnynt, a chawsant gyfle i esbonio'r anawsterau yr oeddent yn eu hwynebu. Pan nodwyd hyn, defnyddiwyd dull ar y cyd i sicrhau ymgysylltiad a phresenoldeb gwell. Bu gwelliant yn y cyfathrebu rhwng y rhieni, a llwyddodd yr ysgol i wella a galluogi monitro presenoldeb yn agosach. Roedd hefyd yn golygu osgoi cymryd camau cyfreithiol pellach yn erbyn y rhieni.

## Cyflawniad

**Ffigur 3: Cyflawniad academaidd yng nghyfnod allweddol 3 ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsi / Sipsi Roma, 2011-2017 (cyfartaleddau tair blynedd)**





**Ffigur 4: Cyflawniad academaidd yng nghyfnod allweddol 3 ar gyfer disgyblion o gymunedau Teithwyr, 2012-2017 (cyfartaleddau tair blynedd)**




Sylwer nad oes data cyrhaeddiad cyfnod allweddol 3 ar gyfer 2011-2013, oherwydd nifer fach y disgyblion o gymunedau Teithwyr.

**Ffigur 5: Cyflawniad academaidd yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn / Sipsiwn Roma, 2011-2017 (cyfartaleddau tair blynedd)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2018b

Sylwer nad oes data cyrhaeddiad cyfnod allweddol 4 wedi'i gyhoeddi ar gyfer disgyblion o gymunedau Teithwyr o ganlyniad i niferoedd bach.

37 Er 2011, mae perfformiad disgyblion o gymunedau Sipsi / Sipsi Roma wedi dangos tuedd o welliant yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel ei gilydd ym mhob un o'r dangosyddion allweddol. Bu'r gwelliant mwyaf yn nhrothwy lefel 1 yng nghyfnod allweddol 4 lle mae disgyblion wedi gwneud gwelliant nodedig dros y saith mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol o ryw 16 pwynt canran o hyd. Yn y prif ddangosydd allweddol yng nghyfnod allweddol 4, trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg, disgyblion o gymunedau Sipsi / Sipsi Roma yw'r grŵp ethnig sydd â'r perfformiad isaf yng Nghymru, gan berfformio cryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 59%. Mae niferoedd y disgyblion o gymunedau Teithwyr yn rhy fach i wneud unrhyw gymariaethau tebyg yng nghyfnod allweddol 4.

38 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol yn casglu a dadansoddi data ar bresenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i bennu effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer gwella a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i wella deilliannau a darpariaeth. Fodd bynnag, ni wneir hyn yn ddigon eang ar draws pob awdurdod lleol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn parhau â'r un mathau o gymorth heb ystyried pa strategaethau yw'r rhai mwyaf neu leiaf effeithiol.

39 Pan fydd angen cryfhau medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cymorth trwy eu hymyriadau safonol, fel rhaglenni dal i fyny. Pan nodir bod gan ddisgybl o gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr angen dysgu ychwanegol o bosibl, mae cyswllt rhwng staff yr awdurdod lleol a chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol a'r gwasanaeth addysg i deithwyr yn sicrhau, ar y cyfan, fod y disgybl yn cael asesiadau perthnasol sy'n arwain at ddarparu cymorth addas.

Llwyddodd un ysgol uwchradd i sicrhau cyswllt agos rhwng yr ysgol, y cartref ac ystod eang o wasanaethau cymorth i feithrin darpariaeth deilwredig i gynorthwyo disgybl o gymuned Sipsi Deithwyr oedd ag anghenion dysgu a meddygol cymhleth. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr ysgol, y teulu ac asiantaethau allanol i fonitro cynnydd trwy gyfnod allweddol 3, ac wedyn yng nghyfnod allweddol 4. Cynhaliodd yr ysgol y lefel hon o gymorth yng nghyfnod allweddol 4 a darparu cwricwlwm teilwredig i ddiwallu anghenion y disgybl. O ganlyniad, cwblhaodd y disgybl gyfnod allweddol 4, ac mae wrthi'n symud i addysg ôl-16 mewn darpariaeth arbenigol.

40 Mae mwyafrif o ddarparwyr yn ymwybodol o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n fwy abl a thalentog. Maent yn diwallu anghenion y disgyblion hyn yn briodol trwy wneud yn siŵr fod medrau disgyblion unigol yn cael eu datblygu yn unol â'u galluoedd. Er enghraifft, mewn un ysgol, rhoddodd oedolyn gymorth ychwanegol i ddisgybl o gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a oedd yn fwy abl yn wyddonol ac yn fathemategol i'w helpu ymgynefino yn y dosbarthiadau haen uwch.

41 Mae llawer o ysgolion yn dathlu cyflawniadau disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn yr un ffordd ag y maent ar gyfer pob disgybl. Mae hyn yn bennaf trwy dystysgrifau gwobrwyo, cyflwyniadau a llythyrau sy'n cael eu hanfon gartref.

## Gwasanaethau targedig ysgolion ac awdurdodau lleol

42 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu cymorth defnyddiol yn yr ysgol trwy wasanaeth addysg i deithwyr. Gwneir hyn fel arfer trwy staff arbenigol yn gweithio gyda disgyblion yn eu hysgol. Mae staff y gwasanaeth yn cysylltu'n dda â theuluoedd disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn helpu disgyblion i wella eu cyrhaeddiad a'u presenoldeb. Mae llawer o staff gwasanaeth hefyd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ysgol i'w helpu i ddeall cefndir diwylliannol disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a sut orau i'w cynorthwyo.

43 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r awdurdod lleol yn neilltuo staff arbenigol i ysgolion, ar sail nifer y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n mynychu. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae diffyg eglurder am y modd y mae'r awdurdod lleol yn neilltuo staff i ysgolion.

44 Cyflwynir gwasanaethau ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr gan awdurdodau lleol unigol yn bennaf. Ychydig iawn o awdurdodau lleol yn unig sy'n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill i gyflwyno gwasanaethau ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er enghraifft, mae Wrecsam a Sir y Fflint yn cydweithio i rannu gwybodaeth am ychydig o deuluoedd sy'n teithio rhwng y ddwy sir, ac mae hyn yn helpu sicrhau parhad mewn addysg ar gyfer y disgyblion hyn. Yn fwy cyffredinol, mae'r diffyg gweithio mewn partneriaeth ar draws awdurdodau yn golygu nad yw gwybodaeth am ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'u hanghenion addysgol yn cael ei rhannu'n ddigon da, er bod y disgyblion hyn yn fwy tebygol o symud ar draws ffiniau awdurdodau yn ystod eu blynyddoedd ysgol.

45 Mae llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt wedi defnyddio canllawiau 'Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) ac wedi eu gweld yn ddefnyddiol. Maent wedi helpu rhoi dealltwriaeth dda i ddarllenwyr o ddiwylliant Sipsi Deithwyr a'r materion sy'n ymwneud yn benodol â disgyblion o ddiwylliant Sipsi Deithwyr a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae'r ddogfen dros 10 mlwydd oed erbyn hyn, ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun presennol yn llawn.

46 Mae ychydig iawn o ysgolion wedi cyflogi staff o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i weithio gyda'r disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er enghraifft, cyflogodd un ysgol aelod ymddiriedus o'r gymuned Tsiec Roma fel cynorthwyydd addysgu Cynhwysiant a Lles. Llwyddodd yr ysgol i wella ymgysylltu â'r gymuned leol, ac o ganlyniad, bu gwelliant ym mhresenoldeb, cynnydd ac ymddygiad disgyblion.

47 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â choleg neu ddarparwr dysgu yn y gwaith lleol i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng nghyfnod allweddol 4. Er enghraifft, mewn un ysgol, roedd disgybl yn ystyried gadael yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4. Llwyddodd yr awdurdod lleol i sicrhau cyllid ar gyfer cwrs ar fedrau

gwaith gof fel rhan o gwricwlwm amgen. Roedd gan y disgybl gyfraddau presenoldeb da yn y sesiynau, ac yn cyflawni'n dda. O ganlyniad, mae coleg addysg bellach wedi ei dderbyn i barhau â'i astudiaethau. Ychydig iawn o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn unig sy'n parhau â'u haddysg yn y sector ôl-16. Mae ychydig o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dilyn cyrsiau fel adeiladu neu gyrsiau gwallt a harddwch, ac mae hyd yn oed llai o ddisgyblion yn dilyn cyrsiau Safon Uwch yn y chweched dosbarth. Anaml y mae disgybl o gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn mynd ymlaen i ddilyn cwrs gradd mewn prifysgol.

## Cyllid, monitro a gwerthuso

48 Nid yw mwyafrif o awdurdodau lleol yn credu y bu cyfuno'r Grant Addysg i Blant sy'n Sipsiwn a Phlant sy'n Deithwyr yn y GGA yn 2014 yn effeithiol. Y rheswm am hyn yw eu bod o'r farn y bu gostyngiad cyffredinol mewn cyllid, a bod hynny wedi cael effaith negyddol ar y gwasanaethau yr oeddent yn gallu eu darparu. Er i lefel gyffredinol y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru trwy'r GGA gael ei chynnal, o fewn y GGA, roedd disgresiwn i awdurdodau lleol ddyrannu cyllid ar lefel yr oeddent yn ei hystyried yn briodol ar sail angen lleol. Mewn rhai achosion, dyrannodd awdurdodau lleol gyllid ychwanegol ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion trwy eu cyllidebau craidd.

49 Mae trefniadau consortia wedi eu cyfyngu i raddau helaeth i ddosbarthu cyllid GGA yn uniongyrchol i awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, nid oes ganddynt rôl mewn ymgymryd â chyfrifoldebau ar gyfer addysg disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

50 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol o'r farn y bu'r trefniadau gweinyddu ar gyfer y grant yn ddigonol. Un o'r prif fanteision oedd bod yr awdurdod lleol yn cael y grant mewn modd amserol o dan y GGA. Yn ychwanegol, maent yn credu y bydd newidiadau diweddar pellach i drefniadau ariannu yn parhau i gael effaith negyddol ar addysg disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

51 At ei gilydd, mae trefniadau consortia ar gyfer monitro a gwerthuso deilliannau ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn briodol. Mae ymgynghorwyr gwella ysgolion ac ymgynghorwyr her yn cefnogi a monitro'r holl ddysgwyr sy'n agored i niwed ar y cyfan, gan gynnwys dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol eu hunain yn monitro a gwerthuso disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn fanwl.

52 Mae ychydig o awdurdodau lleol sydd â niferoedd bach o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dosbarthu cyllid grant yn uniongyrchol i ysgolion ar sail niferoedd y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae ysgolion yn defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi datblygiad disgyblion o ran llythrennedd, rhifedd a llythrennedd emosiynol.

## Atodiad 1: Cynnydd yn unol ag argymhellion o adroddiadau blaenorol Estyn

Eir i'r afael â'r cynnydd yn unol â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Estyn yn 2011 ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion trwy'r adroddiad ei hun. Yr argymhellion oedd y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion:

A1 Barhau i ddod o hyd i ffyrdd o wella cyfraddau presenoldeb plant sy'n Sipsi Deithwyr mewn ysgolion uwchradd*

A2 Sicrhau bod gan bob ysgol bolisïau sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr*

A3 Sicrhau bod y cwricwlwm yn hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol ar ddiwylliant Sipsi Deithwyr, yn enwedig mewn ysgolion lle mae'r grŵp hwn o ddisgyblion ar y gofrestr*

A4 Gwella'r defnydd o ddata ar bresenoldeb, gwaharddiadau a chyrhaeddiad i werthuso effaith y cymorth ar gyfer disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr

A5 Sicrhau mai trefniant tymor byr yn unig yw unrhyw ddarpariaeth ar wahân ar gyfer disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr, cyn eu hintegreiddio'n llawn mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd

Trafodir y cynnydd yn unol â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Estyn yn 2011 ar gyfer Llywodraeth Cymru isod.

**A1: Sicrhau bod y data a gesglir ar ddisgyblion sy'n Sipsi Deithwyr o wybodaeth sy'n cael ei chyflenwi gan staff cymorth dynodedig awdurdodau lleol yn gywir a chyson***

Mae'r ffordd y caiff data ar Sipsi Deithwyr ei gasglu wedi newid. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno datganiadau mwyach, sy'n cynnwys niferoedd y disgyblion i lywio cyllid, yn unol â'r hyn a ddigwyddodd o dan grantiau 2011. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu data trwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru godau ethnigrwydd ychwanegol i roi opsiynau i ddisgyblion a'u rhieni bennu'n fwy cywir yr ethnigrwydd sy'n gweddu iddynt orau. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru eithrio dysgwyr Sipsi a Roma, a chyflwyno categori ar gyfer pobl sioe. Mae hyn wedi helpu sicrhau cywirdeb gwell o ran casglu data. Fodd bynnag, mae lleiafrif o rieni o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn amharod i ymgysylltu â'r categorïau hyn gan eu bod yn ofni cael eu herlid a'u bwlio.

**A2: Ystyried ffyrdd y gellir dyrannu cyllid fel ei fod yn rhoi mwy o bwyslais ar anghenion disgyblion oedran uwchradd***

Pan wnaeth Estyn yr argymhelliad hwn, roedd gwasanaeth cymorth ar gyfer y disgyblion hyn yn cael ei ariannu trwy grantiau ar wahân. Yn 2013-2014, roedd y

fformiwla ariannu a oedd yn cael ei ddefnyddio i bennu'r dyfarniadau o'r Grant Addysg i Sipsiwn a Theithwyr yn rhoi'r pwys uchaf i ddisgyblion oedran uwchradd. Nid yw hyn yn berthnasol mwyach, gan fod cyllid ar gyfer cymorth i ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi newid, ac felly awdurdodau lleol sy'n gwneud penderfyniadau am dargedu cyllid.

**A3: Darparu canllawiau ar erlyn mewn achosion lle mae presenoldeb disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr yn gostwng i lai na 200 o sesiynau mewn blwyddyn, i sicrhau dull cyson ledled Cymru**

Cyfyngedig fu'r cynnydd yn unol â'r argymhelliad hwn. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad yn eu hymateb gwreiddiol i adroddiad 2011. Mae wrthi'n adolygu'r fframwaith presenoldeb ysgolion ar hyn o bryd, ac yn ystyried yr argymhelliad hwn fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

*Argymhelliad yn adroddiad Estyn yn 2005

# Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion o'r adroddiad hwn yn defnyddio dadansoddiad o ganfyddiadau arolygiadau, ymweliadau ag ysgolion, awdurdodau lleol ac un consortiwm, cyfweliadau dros y ffôn gydag ysgolion ac awdurdodau lleol ac arolygon ar-lein o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Yn ychwanegol, cyfwelwyd â grwpiau o ddisgyblion ac un grŵp o rieni. Ymatebodd un consortiwm trwy'r e-bost hefyd. Mae'r sampl yn ystyried gwahanol ardaloedd o Gymru. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried ymchwil bresennol, cyhoeddiadau arweiniad gan Lywodraeth Cymru ac astudiaethau achos arfer effeithiol Estyn.

**Awdurdodau lleol a chonsortia a gymerodd ran trwy'r arolwg ar-lein**

- Merthyr Tudful
- Blaenau Gwent
- Castell-nedd Port Talbot
- Y Consortiwm Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Sir Fynwy
- Caerffili
- Caerdydd
- Powys
- Sir Benfro
- Bro Morgannwg
- Casnewydd
- Sir y Fflint
- Sir Gaerfyrddin
- Torfaen
- Wrecsam
- Abertawe

**Ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia y cyfarfuwyd â nhw neu yr ymwelwyd â nhw**

- Wrecsam
- Sir y Fflint
- Sir Benfro
- Sir Gaerfyrddin
- Caerdydd
- Y Consortiwm Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd Sant Illtyd, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd Llysweri, Casnewydd
- GEMS (Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent), Casnewydd
- Ysgol Uwchradd John Frost, Casnewydd
- Ysgol Uwchradd Sant Joseph, Wrecsam
- Ysgol Uwchradd Cei Connah, Sir y Fflint
- Gwasanaeth Ieuenctid a Chyngor Ieuenctid Sir y Fflint

**Ysgolion ac awdurdodau lleol a gymerodd ran trwy ymgynghoriad dros y ffôn**

- Torfaen
- Ysgol Uwchradd Penyrheol, Abertawe
- Ysgol Uwchradd Y Trallwng, Powys
- Ysgol Uwchradd Gorllewin Mynwy, Torfaen
- Canolfan Ddysgu Priory, Sir Benfro
- Castell-nedd Port Talbot

Astudiaethau achos arfer effeithiol Estyn:

Strategaethau effeithiol i gefnogi disgyblion Sipsiwn Teithwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseph, Wrecsam

Dull arloesol o gefnogi disgyblion o deuluoedd Galwedigaethol sy'n teithio, Ysgol Gyfun Penyrheol, Abertawe

# Geirfa

**Cofrestriad deuol** Os bydd gan ddisgybl gofrestriad deuol mewn mwy nag un ysgol, ar gyfer unrhyw sesiwn ysgol benodol y disgwylir iddo/iddi fynychu un ysgol, gallai'r ysgol arall roi marc yn y gofrestr presenoldeb ei fod/bod yn mynychu gweithgaredd addysgol cymeradwy. Mae hyn yr un mor berthnasol i blant Teithwyr y mae'n hysbys eu bod yn mynychu ysgol arall y maent wedi'u cofrestru ynddi.

**Cynllun Cymorth Bugeiliol (CCB)** Ymyrraeth yn yr ysgol yw cynllun cymorth bugeiliol i helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad a'u presenoldeb yn well, a nodi unrhyw fecanweithiau cymorth y mae angen eu rhoi ar waith.

**Grant Cymorth Refeniw (GCR)** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu tua 80% o'r arian a ddyrennir i awdurdodau lleol yng Nghymru. Caiff y cyllid hwn ei adnabod fel y Grant Cymorth Refeniw.

**Grant Gwella Addysg (GGA)** Mae'r Grant Gwella Addysg (GGA), a sefydlwyd ym mis Ebrill 2015, yn darparu cymorth ariannol i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol i wella deilliannau addysgol ar gyfer yr holl ddysgwyr.

**Gwasanaeth addysg i deithwyr** Gwasanaeth a ddarperir gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i gefnogi addysg disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Achub y Plant (2016) *Teithio Ymlaen. Arfer Da mewn Addysg: Prosiect Ymchwil Cymheiriaid*. Caerdydd: Achub y Plant. [Ar-lein]. Ar gael o*:* http://www.travellingahead.org.uk/wp-content/uploads/2016/05/Travelling-Ahead-Young-Peoples-Education-Research-Report-Cym.pdf [Defnyddiwyd 09 Tachwedd 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) *Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Adroddiad ymchwil i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10943/cr-ld10943-w.pdf [Defnyddiwyd 09 Tachwedd 2018]

Estyn (2005) *Addysg Dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://core.ac.uk/download/pdf/4155700.pdf [Defnyddiwyd 09 Tachwedd 2018]

Estyn (2011) *Addysg disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr: Diweddariad ar y ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/addysg-disgyblion-syn-sipsi-deithwyr-diweddariad-ar-y-ddarpariaeth-mewn-ysgolion [Defnyddiwyd 09 Tachwedd 2018]

Llywodraeth Cymru (2017) *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf [Defnyddiwyd 09 Tachwedd 2018]

Llywodraeth Cymru (2018a) *Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/180625-enabling-gypsies-roma-travellers-plan-cy.pdf [Defnyddiwyd 09 Tachwedd 2018]

Llywodraeth Cymru (2018b) *Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-chracteristics/?lang=cy [Defnyddiwyd 09 Tachwedd 2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr. Canllawiau*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/121113travellereducationcy.pdf [Defnyddiwyd 09 Tachwedd 2018]

Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu Hiliol (2016b) *Concluding observations on the combined twenty-first to twenty-third periodic reports of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland.* Genefa: y Cenhedloedd Unedig. [Ar-lein]. Ar gael o: http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2fPPRiCAqhKb7yhsl%2bN10MmdFIWGiBm7N%2bEPpl6oQVX7Cs%2bQ%2byjZw6GexIALjR1lpE7jqbq3ScPwsAhr4c02LO%2fwWIQzG2OX2m4OAvEMCxla40RMGPgA4zfHJJ1z7Cv7yb71i3rvDLpuVgACA%3d%3d [Defnyddiwyd 07 Tachwedd 2018]

Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2016a) *Concluding observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland.* Genefa: y Cenhedloedd Unedig. [Ar-lein]. Ar gael o: http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2fPPRiCAqhKb7yhskHOj6VpDS%2f%2fJqg2Jxb9gncnUyUgbnuttBweOlylfyYPkBbwffitW2JurgBRuMMxZqnGgerUdpjxij3uZ0bjQBP0P1vdh%2bzjU8EmP5PnGXSC [Defnyddiwyd 07 Tachwedd 2018]